

# Asesiad Effaith Cydraddoldeb (EIA) – Rhan 1

<b>Teitl y polisi a'i ddben (amlinelliad cryno):</b>	<b>Ymestyn y Fframwaith Cofrestru ar gyfer Gofal Plant o fewn y "Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010"</b>
--	---

## 1. Rhowch ddisgrifiad cryno o'r polisi/penderfyniad.

**Er enghraifft, beth yw amcan cyffredinol y polisi/penderfyniad, beth yw'r nodau allweddol (yn cynnwys pwy yw'r buddiolwyr arfaethedig), disgrifiad bras o sut y cyflawnir hyn, beth fydd y mesur llwyddiant, a'r ffrâm amser ar gyfer cyflawni hyn?**

Ar hyn o bryd yng Nghymru, mae cofrestru ar gyfer gofal plant yn ofynnol yn gyffredinol lle mae darparwyr gofal plant yn darparu gofal ar gyfer plant hyd at wyth oed. Rhaid i bob darparwr gofal plant cofrestredig gadw at reoliadau perthnasol a'r safonau fel y nodir yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir (SGC). Sicrheir y safon gofal hon drwy arolygu a rheoleiddio yn erbyn y safonau hyn gan Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

Y polisi yw ymestyn y terfyn uchaf ar gyfer cofrestru gorfodol ar gyfer darpariaeth gofal plant o 8 i 12 oed. Amcan cyffredinol y polisi yw rhoi trefniadau ar waith i sicrhau dull cyson ar gyfer rheoleiddio ansawdd ac addasrwydd y ddarpariaeth gofal plant ar gyfer plant wyth oed a throsodd yng Nghymru. Bydd y newidiadau hyn yn arwain at gynnydd yn nifer y lleoliadau gofal plant y mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir sy'n cynnwys canlyniadau sy'n cyd-fynd â chydarddoldeb a chynhwysiant. Y prif fuddiolwyr arfaethedig yw:

### **Plant**

- mewn darpariaeth gofal plant hyd at 12 oed a fydd yn elwa o dderbyn gofal mewn lleoliadau sy'n amodol ar isafswm safonau gofal a gynlluniwyd i sicrhau eu bod yn rhan o amgylchedd diogel a phriodol gyda staff sydd â chymwysterau addas.

### **Rhieni/Gofalwyr**

- cael mwy o sicrwydd ynghylch diogelwch ac ansawdd y gofal a dderbynia eu plant.
- gallu cael mynediad at gymorthdaliadau trethi a budd-daliadau ar draws y DU sy'n agored i rieni sy'n defnyddio gofal plant cofrestredig, a fydd yn helpu gwneud gofal plant yn fwy fforddiadwy.

Bydd ymestyn y terfyn oedran uchaf ar gyfer cofrestru darpariaeth gofal plant yn dod i rym o fis Ebrill 2016. Bydd angen i bob

darpariaeth gofal plant a chwarae, gan gynnwys (gwarchodwyr plant, gwasanaethau gofal dydd, clybiau ar ôl ysgol, cynlluniau chwarae yn ystod gwyliau a darpariaeth chwarae) ar gyfer plant o dan 12 oed (sy'n gweithredu am fwy na 2 awr y dydd), gofrestru gydag AGGCC. Y canlyniad a ddymunir fydd cynnydd yn nifer y darparwyr gofal plant cofrestredig yng Nghymru ar gyfer plant o 0 i 12 oed.

**1. Mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (cyfeiriwch at Atodiad A y canllawiau EIA) sydd wedi'u nodi fel bod yn berthnasol i'r polisi. Pa gamau a gymerwyd gennych i ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn fewnol ac yn allanol?**

- Rydym wedi cynnwys cwestiynau o fewn ein hymgyngoriad a oedd yn ceisio ymdrin â safbwyntiau ynghylch sut y gallai'r newidiadau a gynigir gennym effeithio ar gydraddoldeb.
- Cyn cynnal yr ymgynghoriad rydym wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol i helpu nodi effaith y prosiect ar gydraddoldeb.
- Rydym hefyd wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol ar draws y sector gofal plant, i gasglu barn ynghylch ymestyn cofrestru gofal plant. Mae'r rhain yn cynnwys sefydliadau sy'n darparu gofal ar gyfer, goruchwylio a hyrwyddo cydraddoldeb ar gyfer plant sydd â nodweddion gwarchoddedig.

---

**Rhaid seilio eich penderfyniadau ar dystiolaeth gadarn. Pa sail dystiolaeth rydych chi wedi'i defnyddio? Rhestrwch ffynhonnell y dystiolaeth e.e. Arolwg Cenedlaethol Cymru. A ystyriwch y dystiolaeth yn gryf, yn foddhaol neu'n wan ac a oes unrhyw fylchau yn y dystiolaeth?**

Wrth edrych ar y newidiadau hyn, ystyriodd y swyddogion polisi amrywiaeth o wybodaeth. Cynhwysodd y rhain:

- Gwybodaeth am gofrestru ar gyfer plant hŷn mewn rhannau eraill o'r DU lle mae trefniadau mewn lle ar gyfer cofrestru darpariaeth ar gyfer plant dros 8 oed;

- Data meintiol ar argaeledd gofal plant wedi'i gymryd o Aseidiadau Digonolrwydd Gofal Plant yr Awdurdod Lleol (AGP);
- Data o'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ar leoliadau yng Nghymru sy'n darparu darpariaeth ar gyfer plant dros 8 oed;
- Safonau Gofynnol Cenedlaethol Cymru (SGC) ar gyfer Gofal Plant a reoleiddir;
- Data o arolygon a gynhaliwyd gan AGGCC, am yr effaith a gaiff y newidiadau ar y sector (h.y. Faint o fusnesau fyddai'n debygol o gael eu heffeithio); ac
- Ymatebion i'r ymgynghoriad yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus o ddeuddeg wythnos.

## Effaith

**Llenwch yr adran nesaf i ddangos sut y gallai'r polisi/penderfyniad/arfer hwn gael effaith (cadarnhaol neu negyddol) ar y grwpiau gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (cyfeiriwch at y ddogfen arweiniad EIA am fwy o wybodaeth).**

**Nid yw diffyg tystiolaeth yn rheswm dros *beidio* â symud ymlaen i gynnal EIA. Nodwch unrhyw fylchau yn y dystiolaeth y byddwch wedi'u dynodi ac egluro sut/os ydych yn bwriadu llenwi'r bylchau hyn.**

**4.1 A ydych chi'n credu y bydd y polisi/penderfyniad/arfer hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hoedran?**

Oedran	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?
Pobl iau  (Plant a	X			Drwy newid y gofyniad i gofrestru, bydd angen i fwy o leoliadau gydymffurfio â'r Safonau Gofynnol

<i>phobl iau, hyd at 18)</i>				Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir, gan gynyddu lefel y gofal a gaiff pobl iau.
Pobl 18-50	X			<p>Mae pobl o fewn y grŵp oedran hwn yn fwy tebygol o fod yn rhieni. Mae newidiadau i'r rheoliadau yn golygu y bydd rhieni yn teimlo'n fwy sicr dros y gofal plant y bydd eu plant yn ei dderbyn.</p> <p>Bydd rhai rhieni yn gallu cael mynediad at gymorthdaliadau trethi a budd-daliadau ar draws y DU i rieni sy'n defnyddio gofal plant cofrestredig, a fydd yn helpu i wneud gofal plant yn fwy fforddiadwy.</p>
Pobl hŷn (50+)	X			Efallai y bydd y cynllun hwn yn effeithio ar rieni hŷn fel y nodir uchod, ac efallai'n cael effaith ymylol ar deidiau a neiniau, drwy leihau'r baich i ddarparu gofal plant, a gall rhai efallai gael cymorth ychwanegol (drwy systemau trethi a budd-daliadau ar draws y DU) a bydd yn helpu i wneud gofal plant yn fwy fforddiadwy.

#### 4.2 Oherwydd eu bod yn anabl?

Nam	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?
-----	------------	----------	------------	---

Nam ar y golwg	X			Bellach bydd angen i fwy o leoliadau gofal plant gydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir, yn benodol safonau 4.8, 4.9 a 4.10 sy'n hyrwyddo gofal rhesymol ar gyfer plant sydd ag anghenion arbennig neu ychwanegol.
Nam ar y clyw	X			
Yn anabl yn gorfforol	X			
Anabledd dysgu	X			
Problem iechyd meddwl	X			
Materion namau eraill	X			

#### 4.3 Oherwydd eu rhyw (dyn neu fenyw)?

Rhyw	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?
Gwryw			X	Nid yw'r polisi hwn wedi'i dargedu at unrhyw ryw yn benodol a dylai fod o fudd i rieni yn gyffredinol waeth beth fo'u rhyw.
Benyw			X	

#### 4.4 Oherwydd eu bod yn drawsrywiol?

Trawsrywiol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?
			X	Fel uchod

#### 4.5 Oherwydd eu priodas neu bartneriaeth sifil?

<b>Priodas a Phartneriaeth Sifil</b>	<b>Cadarnhaol</b>	<b>Negyddol</b>	<b>Dim/Dibwys</b>	<b>Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?</b>
Priodas			X	Nid yw'r polisi hwn yn targedu unigolion ar sail eu statws priodasol.
Partneriaeth Sifil			X	

#### 4.6 Oherwydd eu beichiogrwydd neu famolaeth?

<b>Beichiogrwydd a Mamolaeth</b>	<b>Cadarnhaol</b>	<b>Negyddol</b>	<b>Dim/Dibwys</b>	<b>Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?</b>
Beichiogrwydd			X	Yn annhebygol o gael effaith, er y gallai effeithio ar ddewis person i gael plant.
Mamolaeth (y cyfnod ar ôl geni)			X	Mae newid yn bennaf yn effeithio ar rieni plant hŷn felly mae'r effaith ar famau yn ystod y cyfnod ar ôl geni yn debygol o fod yn gyfyngedig.

#### 4.7 Oherwydd eu hil?

<b>Hil</b>	<b>Cadarnhaol</b>	<b>Negyddol</b>	<b>Dim/Dibwys</b>	<b>Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?</b>
------------	-------------------	-----------------	-------------------	--

Pobl o leiafrifoedd ethnig e.e. Asiaidd, DU	X			Posibilrwydd o fudd cadarnhaol cymedrol, i'r graddau y bydd angen mwy o leoliadau i gydymffurfio â Safon 16.1 o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir: 'bod cyfle cyfartal ac arferion nad ydynt yn gwahaniaethu yn cael eu hyrwyddo yn y lleoliad.'
Tarddiad cenedlaethol (e.e. Cymraeg, Saesneg)	X			
Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid	X			
Sipsiwn a Theithwyr	X			
Ymfudwyr	X			
Eraill	X			

#### 4.8 Oherwydd eu crefydd a'u cred neu ddiffyg cred?

Crefydd a chred neu ddiffyg cred	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?
Gwahanol grwpiau crefyddol yn cynnwys Mwslimiaid, Iddewon, Cristnogion, Sikhiaid, Bwdhyddion, Hindŵiaid, eraill (nodwch)	X			Posibilrwydd o fudd cadarnhaol cymharol fach, i'r graddau y bydd yn ofynnol i fwy o leoliadau gydymffurfio â Safon 4.3, 12.1, 12.4 a 12.5 o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir; sydd i gyd wedi'u targedu tuag at gydraddoldeb crefyddol.
Cred e.e.			X	Heb eu crybwyll yn SGC



Dyneiddwyr				
Diffyg cred			X	Heb eu crybwyll yn SGC

#### 4.9 Oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol?

Cyfeiriadedd Rhywiol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?
Dynion hoyw	X			Posibilrwydd o fudd cadarnhaol cymedrol, i'r graddau y bydd yn ofynnol i fwy o leoliadau gydymffurfio â safon 16.1 o'r SGC: 'bod cyfle cyfartal ac arferion nad ydynt yn gwahaniaethu yn cael eu hyrwyddo yn y lleoliad.'
Lesbiaid	X			
Deurywiol	X			

**4.10 A gredwch y bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl? Gweler pwynt 1.4 o Atodiad A yr EIA - Canllawiau ar gyfer gwybodaeth bellach ynghylch Hawliau Dynol.**

Hawliau Dynol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?
Hawliau dynol, gan gynnwys y Ddeddf Hawliau Dynol a	X			Mae'r Rheoliadau yn seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Gweler Aseiad Effaith ar Hawliau Plant am fwy o

Chonfensiwn y Cenedloedd Unedig				<p>wybodaeth am hyn. Nid yw'r polisi hwn yn gwrthdaro ag unrhyw un o'r erthyglau a restrir yn y Ddeddf Hawliau Dynol 1998.</p> <p>Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir yn cyfeirio at CCUHP ac yn nodi bod gan bawb sy'n gofalu am a gweithio gyda phlant a phobl ifanc rôl i'w chyflawni i gydnabod hawliau plant a'u helpu i gyrraedd eu potensial fel unigolion.</p>
--	--	--	--	--

***Os ydych wedi nodi unrhyw effeithiau (ac eithrio rhai dibwys), cadarnhaol neu negyddol, ar unrhyw grŵp â nodweddion gwarchoddedig, llenwch Ran 2.***

***Dim ond os nad oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu effeithiau negyddol, neu fawr ddim effeithiau cadarnhaol neu effeithiau negyddol ddylech chi fynd yn syth i ran 2 a chymeradwyo'r EIA.***

### **Asesiad Effaith Cydraddoldeb – Rhan 2**

**1. Gan adeiladu ar y dystiolaeth a gasglwyd ac a ystyriwyd yn Rhan 1, ystyriwch y canlynol:**

**1.1 Sut y gallai, neu sut mae'r polisi yn helpu i wella/hyrwyddo cyfle cyfartal?**

Er enghraifft, mesurau cadarnhaol a luniwyd i fynd i'r afael ag anfantais a chyrraedd gwahanol gymunedau neu grwpiau gwarchoddedig?

Mae'r cynnig i gynyddu'r terfyn oedran uchaf ar gyfer cofrestru gorfodol gofal plant o 8 i 12 oed yn sicrhau dull cyson ar gyfer rheoleiddio ansawdd ac addasrwydd y ddarpariaeth gofal plant ar gyfer plant wyth oed a throsodd yng Nghymru. Mae'n sicrhau bod erthyglau a gynhwysir o fewn yr UNCHR yn cael eu cynnal nid yn unig ar gyfer plant iau, ond hefyd ar gyfer plant hŷn sy'n defnyddio gofal plant.

Bydd y cynnig hefyd yn galluogi mwy o rieni yng Nghymru i gael mynediad at gymorthdaliadau trethi a budd-daliadau ar draws y DU sydd ar gael mewn perthynas â chostau defnyddio gofal plant cofrestredig ac a gymeradwywyd. Bydd hyn yn helpu i leihau costau gofal plant, felly, yn cyfrannu at flaenoriaeth trechu tlodi o alluogi mwy o rieni i gael mynediad at ofal plant fforddiadwy.

### **1.2 Sut y gallai / sut mae'r polisi / penderfyniad yn helpu i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu neu erledigaeth?**

Drwy gynyddu'r terfyn oedran uchaf ar gyfer cofrestru gofal plant a diwygio'r SGC i adlewyrchu hyn, bydd mwy o leoliadau gofal plant yn destun rheoleiddio ac arolygu gyda'r mesurau diogelu ddaw yn sgil hyn. Mae Safon 16.3 yn cyfeirio'n benodol at gydymffurfio â deddfwriaeth gwrthwahaniaethu ac arferion da ym mhob maes.

### **1.3 Sut y gallai / sut mae'r polisi'n effeithio ar wella / hyrwyddo cysylltiadau da a chydlyniant cymunedol ehangach?**

Bydd y newidiadau yn arwain at gynnydd yn nifer y lleoliadau gofal plant y mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â'r SGC. Mae'r safonau hyn yn cynnwys canlyniadau sy'n cyd-fynd â chydaddoldeb a chynhwysiant a'r angen i ystyried yr iaith Gymraeg. Bydd y rhain yn helpu i fod yn sail i hybu/hyrwyddo cysylltiadau da a chydlyniant cymunedol ehangach.

## **2. Atgyfnerthu'r polisi**

**2.1 Os yw'r polisi'n debygol o gael effaith negyddol ('effaith andwyol') ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchodedig neu ar gysylltiadau da, beth yw'r rhesymau dros hyn?**

**Pa newidiadau/camau ymarferol allai helpu i leihau neu ddileu unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd yn Rhan 1?**

Amherthnasol

**2.2 Os nad oes unrhyw gamau i'w cymryd i ddileu neu liniaru effaith negyddol / niweidiol, rhowch gyfiawnhad dros hynny.**

**(Cofiwch os ydych chi wedi nodi gwahaniaethu anghyfreithlon (uniongyrchol neu bosibl) o ganlyniad i'r polisi, rhaid newid neu adolygu'r polisi.)**

Amherthnasol

### **3. *Monitro, gwerthuso ac adolygu***

**Sut byddwch yn monitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi?**

Rhestrwch fanylion unrhyw waith dilynol a wneir mewn perthynas â'r polisi (e.e. ymgynghoriadau, monitro penodol ac ati).

Byddwn yn monitro effeithiau'r polisi hwn gyda chymorth AGGCC a'u gweithdrefnau adrodd, a thrwy ganfyddiadau'r Awdurdod Lleol yn eu Hasesiadau Digonolrwydd Gofal Plant.

Cyhoeddir canlyniadau pob asesiad effaith lle mae'r effaith yn sylweddol ar wefan Llywodraeth Cymru.

